Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 5 Hydref 2011**

Amser:
**09:15**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Claire Morris**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8148 / 029 2089 8032
PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Sesiwn Craffu ar waith y Gweinidog : Cyfiawnder Ieuenctid (9:15-10:00) (Tudalennau 1 - 8)

Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol.
Sarah Cooper, Pennaeth Cyfiawnder Ieuenctid

**Egwyl (10:00 - 10:10)**

### 3. Comisiynydd Plant Cymru: Adroddiad Blynyddol (10:10 - 11:40)

(To Follow)
http://www.complantcymru.org.uk/uploads/publications/274.pdf

Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru

### 4. Papurau i'w nodi (Tudalennau 9 - 10)

**PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC**

**9.15pm - 5 HYDREF 2011**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**TYSTIOLAETH I BWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC: CYFIAWNDER IEUENCTID**

1. Hoffwn ddiolch i chi am y gwahoddiad i'r Pwyllgor heddiw i roi gwybodaeth i chi am agenda cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Cafwyd rhai datblygiadau arwyddocaol yn y maes hwn dros y 12 mis diwethaf ac rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i amlinellu ein dull o ddatblygu cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn y dyfodol.

2. Mae'r dystiolaeth isod yn darparu'r cefndir a'r cyd-destun ar gyfer y ffordd ymlaen. Mae'n crybwyll rhai o'n cyflawniadau a'r gwaith sy'n mynd rhagddo sy'n cael effaith ar gyfiawnder ieuenctid. Mae hefyd yn rhoi'r cefndir ar gyfer cynigion deddfwriaethol cysylltiedig yng Nghymru.

**Cefndir**

3. Er nad yw cyfiawnder ieuenctid wedi'i ddatganoli, mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb hollbwysig yn y maes hwn o ystyried y cysylltiad agos rhwng atal troseddau ieuenctid a llawer o feysydd datganoledig, megis addysg, hyfforddiant, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Dengys tystiolaeth ryngwladol y gall y meysydd hyn gael effaith sylweddol ar b'un a yw pobl ifanc yn byw bywydau llwyddiannus, bodlon neu a ydynt yn troi at drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

4. Mae gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) brofiad o weithio gyda'i gilydd i gyflawni gwelliannau pendant i bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Mae'r cydweithio hwn wedi'i ategu gan Gynllun Cyflenwi Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan ar gyfer cyfnod 2009-2011. Mae'r Cynllun yn ymgorffori nifer o egwyddorion allweddol, yn bennaf mai'r ffordd fwyaf effeithiol o atal troseddau ieuenctid a sicrhau lles plant a phobl ifanc yng Nghymru yw eu hatal rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid yn y lle cyntaf. Mae atal yn well na gwella a dylid trin pobl ifanc fel plant yn gyntaf ac fel troseddwyr yn ail.

5. Caiff y Cynllun Cyflenwi ei oruchwylio gan grŵp cynghori a sefydlwyd ar y cyd - Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru - sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o drawstoriad eang o randdeiliaid ym maes cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru.

6**.** Rwy'n falch o allu nodi'r cyflawniadau canlynol ledled Cymru:
**Newydd-ddyfodiaid -** mae nifer y newydd-ddyfodiaid i'r system cyfiawnder ieuenctid wedi parhau i leihau bob blwyddyn ers 2006. Dangosodd data Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu fod newydd-ddyfodiaid wedi gostwng 33.3% rhwng 2009 a 2010. Roedd hyn yn cymharu â gostyngiad o ychydig yn fwy nag 16% rhwng 2008 a 2009.
**Cyfraddau aildroseddu -** mae cyfradd aildroseddu wedi lleihau dros 18.6% ers 2005.

**Cyfraddau cadw yn y ddalfa -** Mae cyfradd cadw yn y ddalfa yng Nghymru wedi parhau'n gyson, sef tua 5.6% yn 2010/11 (i lawr o 5.8% yn 2009/10), er gwaethaf gostyngiad sylweddol (13.0%) yn nifer y dedfrydau, a bod nifer y gwarediadau yn y ddalfa yng Nghymru wedi gostwng 16.6% ar gyfer yr un cyfnod.

**Cronfa Cymunedau Diogelach**

7. Mae'r Gronfa Cymunedau Diogelach yn cefnogi'r gwaith o roi egwyddorion Cynllun Cyflenwi 2009-11 ar waith drwy brosiectau sy'n berthnasol i atal a gostwng lefelau troseddau ac anhrefn ieuenctid. Mae hon yn ariannu amrediad o brosiectau ledled Cymru, gan gynnwys rhai yn seiliedig ar weithgareddau artistig neu chwaraeon, cymorth gydag addysg neu hyfforddiant, cynlluniau cyfiawnder adferol, darparu cyfleusterau hamdden a mentrau i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Er enghraifft, yng Ngheredigion, mae'r Rhaglenni Ysgolion a Phrosiect Cyfiawnder Adferol wedi helpu i ddatblygu amrywiaeth o raglenni i atal pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Caiff y prosiect ei gyflwyno i bob ysgol uwchradd a bellach mae'n cael ei gyflwyno i ysgolion cynradd.

**Dull gweithredu'n seiliedig ar Hawliau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**

8. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Hawliau Plant a Phobl Ifanc wedi creu dull gweithredu unigryw o lunio polisïau yn seiliedig ar hawliau sy'n wahanol i ddulliau gweithredu eraill yn y DU. Mae hwn wedi cael effaith fawr ar y dirwedd bolisi ddatganoledig ac annatganoledig yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer cyfiawnder ieuenctid. Credaf fod hyrwyddo darpariaeth yn seiliedig ar hawliau wedi helpu i wella, a bydd yn parhau i wella, y canlyniadau i bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, ac o ganlyniad i hyn wella eu lles. Mae hyn wedi arwain at fenter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r BCI, gyda chymorth y Comisiynydd Plant, â'r nod o wella cyfranogiad pobl ifanc a gaiff eu dedfrydu i orchymyn llys. Mae'r fenter hon wedi'i chynllunio i wella canlyniadau gorchmynion llys drwy sicrhau bod pobl ifanc yn deall eu gorchmynion ac yn cydymffurfio â hwy, lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn torri eu gorchymyn, a lleihau'r risg o aildroseddu.

**Datblygiadau a chyfiawnder ieuenctid yn y dyfodol**

9. O dan y weinyddiaeth flaenorol, ymrwymodd cytundeb 'Cymru'n Un' Lywodraeth Cymru i ystyried y dystiolaeth ar gyfer datganoli'r system cyfiawnder troseddol o fewn cyd-destun (a) datganoli cyllid a (b) camau tuag at sefydlu gweinyddiaeth unigol yng Nghymru.

10. Yn 2009, cynhaliodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ymchwiliad i gyfiawnder ieuenctid a arweiniodd at argymhellion i wella'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a ddarperid.

11. Ym mis Mawrth 2011 arweiniodd yr ystyriaethau hyn at gytundeb y Cabinet ar y pryd i ystyried defnyddio pwerau presennol i gynyddu ein dylanwad ymhellach dros ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn y gymuned. Roedd y cynigion hyn yn rhan o faniffesto'r Blaid Lafur ar gyfer yr

etholiad diweddar a bellach maent yn elfen allweddol o Raglen Llywodraeth Cymru.

12. Rydym am weld newidiadau sylweddol i'r amgylchedd lle mae cyfiawnder ieuenctid yn gweithredu, a chynyddu dylanwad Llywodraeth Cymru dros y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a ddarperir yng Nghymru. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon bydd angen archwilio ffyrdd o atgyfnerthu sefyllfa plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed o ganlyniad i droseddu, gan gynnwys;

- Dichonoldeb rhoi cymorth i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau yn y ddalfa sy'n debyg i'r cymorth a roddir i blant sy'n derbyn gofal.

- Atgyfnerthu dyletswyddau cydweithredu awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, er mwyn hyrwyddo lles plant yn y system cyfiawnder ieuenctid, drwy sicrhau bod amrediad digonol o wasanaethau ar gael i'w cefnogi a lleihau'r risg o aildroseddu.

13. Cynhelir ymgynghoriad ar yr opsiynau polisi hyn yn ystod haf 2012, a bydd yr ymateb yn penderfynu ar ein dull gweithredu terfynol, a allai gynnwys cyflwyno 'Bil Atal Troseddau Ieuenctid (Cymru)'. Os penderfynir bod angen Bil, caiff hwn ei gyflwyno yn ystod blwyddyn 3 o'r rhaglen ddeddfwriaethol.

14. Mae cysylltiad rhwng ein cynigion a'r ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n deillio o Bapur Gwyrdd diweddar y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Torri'r Cylch: Cosbi, ailsefydlu a dedfrydu troseddwyr yn effeithiol. Mae'r ddogfen hon yn cynnig cyflwyno gorchymyn remandio sengl yn ystod 2011/12 â darpariaethau cysylltiedig ar gyfer pennu statws plant sy'n derbyn gofal i bob plentyn a gaiff ei remandio yn y ddalfa. Mae'r cynigion hyn yn cael eu datblygu drwy'r Bil Cymorth Cyfreithiol a Dedfrydu a chredaf y bydd yn ategu diben polisi'r Bil Atal Troseddau Ieuenctid arfaethedig. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r BCI, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a rhanddeiliaid eraill, i sicrhau bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried effaith ei chynigion ar Gymru yn briodol.

**Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr a'i ryngberthynas â Llywodraeth Cymru**

15. Sefydlwyd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) Cymru a Lloegr gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae'r BCI yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol sy'n goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Ei brif nodau yw atal plant a phobl ifanc o dan 18 oed rhag troseddu ac aildroseddu, a sicrhau eu bod yn ddiogel yn y ddalfa ac yr eir i'r afael â'r hyn sy'n achosi eu hymddygiad troseddol.

16. Ar 14 Hydref 2010 cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei bwriad i ddod ag arweinyddiaeth y BCI a'r swyddogaethau penodol a gyflawnir ganddo o dan adain y Weinyddiaeth. Mae'r cynnig ar hyn o bryd yn rhan o'r ymgynghoriad ar Fil Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth y DU. Mae un o uwch swyddogion Llywodraeth Cymru yn aelod o Fwrdd Rhaglen Weithredol Pontio'r BCI a sefydlwyd i oruchwylio'r broses o uno'r BCI â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cytunwyd ar y cyfranogiad hwn er mwyn sicrhau y caiff barn Llywodraeth Cymru ac effaith y newidiadau arfaethedig ar Gymru eu hystyried.

**Timau Troseddau Ieuenctid**

17. Timau Troseddau Ieuenctid sydd â'r cyfrifoldeb statudol am fynd i'r afael â throseddau ieuenctid yn lleol. Mae'r timau hyn yn bartneriaethau lleol statudol a sefydlwyd gan adran 41 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Maent yn dimau amlasiantaethol sy'n cysylltu meysydd datganoledig ac annatganoledig, ar gyfer darparu gwasanaethau a chymorth i bobl ifanc. Cânt eu cydgysylltu gan yr awdurdod lleol perthnasol a'u goruchwylio gan y BCI. Mae 18 o Dimau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru yn cwmpasu 22 o ardaloedd awdurdod lleol, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg. Mae'r timau yn gyfrifol am nodi anghenion pob troseddwr ifanc drwy asesiad cenedlaethol sy'n nodi'r problemau penodol sy'n berthnasol i droseddau'r person ifanc yn ogystal â mesur y risg y mae'n ei beri i eraill. Mae hyn, yn ei dro, yn galluogi'r Tîm Troseddau Ieuecntid i nodi rhaglenni addas i fynd i'r afael â'i ymddygiad a'i anghenion, gan eu cyfeirio at wasanaethau prif ffrwd ac arbenigol gyda'r bwriad o atal troseddu pellach. Mae'r timau hefyd yn gweinyddu ac yn goruchwylio dedfrydau cymunedol pobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt.

**Dedfrydau cymunedol ac yn y ddalfa**

18. Barn Llywodraeth Cymru yw y dylai dewisiadau amgen effeithiol o ran dedfrydau cymunedol fod ar gael i blant a phobl ifanc yn hytrach na'r ddalfa, lle y bo hyn er budd y plentyn. Nid cosb yw'r prif nod ond adsefydlu effeithiol er mwyn atal y bobl ifanc rhag troseddu eto.

19. Mae'n amlwg bod gosod pobl ifanc mewn llety diogel weithiau'n angenrheidiol pan fydd troseddau yn ddifrifol, neu pan fydd pobl ifanc yn troseddu dro ar ôl tro. Pan fydd hynny'n wir, byddai'n well gan Lywodraeth Cymru weld unedau bach yng nghymunedau Cymru, er mwyn sicrhau eu bod mor agos â phosibl at eu cymunedau a'u teuluoedd. Fodd bynnag nid oes digon o gyfleusterau diogel ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru a dim o gwbl yng Ngogledd Cymru, sy'n golygu bod yn rhaid gosod rhai o'n pobl ifanc mewn sefydliadau yn Lloegr. Ar hyn o bryd mae 81 o leoedd yng Nghymru (64 yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc a 17 yng Nghartref Plant Diogel Hillside).

20. Er yr erys dyhead i gynnal a chynyddu'r llety diogel sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng Nghymru rhaid cydbwyso hwn â'r lleihad a groesawir yn nifer y bobl ifanc o Gymru sydd bellach yn y ddalfa a charfan y bobl ifanc yn y ddalfa sy'n lleihau.

21. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ddarparu manyleb gwasanaeth well ar gyfer y bobl ifanc hynny o Gymru a gaiff eu dal mewn Sefydliadau Diogel yn Lloegr. Y bwriad yw sicrhau bod anghenion addysgol, galwedigaethol, iechyd a diwylliannol gwahanol pobl ifanc o Gymru yn cael eu diwallu yn eu hiaith ddewisol ni waeth ym mha wlad y maent yn y ddalfa. Mae Sefydliad Troseddwyr Ifanc Hindley wrthi'n datblygu manyleb bwrpasol a fydd, ynghyd â phrotocol lleoliad pwrpasol ar gyfer pobl ifanc, yn golygu y gall pobl ifanc o ogledd Cymru gael gwasanaethau priodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r BCI i brofi a mireinio'r dull gweithredu hwn cyn penderfynu sut y gellir ei ehangu i sefydliadau eraill sydd â nifer sylweddol o bobl ifanc o Gymru.

22. Mae'r BCI ar hyn o bryd yn ymgynghori ar strategaeth newydd ar gyfer Sefydliadau Diogel. Y prif ffactorau sy'n sbarduno hyn yw: ad-drefnu'r sefydliadau yn sgîl y lleihad yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa neu eu remandio yn y ddalfa; yr angen i barhau i wella canlyniadau i bobl ifanc a'r angen i gyflawni ymrwymiadau'r adolygiad o wariant. Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 11$^{eg}$ Hydref a bydd Llywodraeth Cymru yn darparu ymateb cynhwysfawr i'r cynigion er mwyn sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc o Gymru yn cael eu hystyried yn llawn.

**Rhyngberthynas â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru**

23. Fel y nodais eisoes, er nad yw'r system cyfiawnder ieuenctid wedi'i datganoli i Gymru mae llawer o'r gwasanaethau sy'n hanfodol er mwyn llwyddo i adsefydlu plant a phobl ifanc sy'n mynd i'r ddalfa wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Caiff pob un o'r meysydd pwysig hyn eu huno drwy Gynllun Cyflenwi Cymru 2009-11 ac maent yn cynorthwyo â'r nod canolog o leihau troseddau ieuenctid. Caiff rhai datblygiadau yn y meysydd hyn eu hamlinellu isod.

**Addysg**

24. Fy nghyd-Weinidog y Gweinidog Addysg a Sgiliau, sy'n arwain portffolio dysgu pobl ifanc o Gymru sy'n hysbys i'r system cyfiawnder troseddol. Fy nghyd-Weinidog, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n arwain y portffolio hawliau plant a phobl ifanc.

25. Nododd ymchwil a gynhaliwyd gan y BCI yn 2008 mai addysg effeithiol yw'r ffactor diogelu pwysicaf oll o ran atal aildroseddu. Mae'r cynllun cyflenwi yn cydnabod pwysigrwydd dysgu a chyflogaeth fel ffactor allweddol wrth atal pobl ifanc rhag troseddu ynghyd â sicrhau bod trefniadau addysg a hyfforddiant ar waith ar gyfer pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol sy'n diwallu eu hanghenion er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl iddynt newid eu bywydau er gwell. Dros y blynyddoedd diwethaf cafwyd rhai cyflawniadau addysgol sylweddol a fu o fudd i bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol ledled Cymru. Ymysg y rhain mae'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2011 ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â dyletswyddau newydd ar gyfer addysgu a hyfforddi plant a phobl ifanc o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009. Cyhoeddwyd canllawiau ym mis Gorffennaf 2009 ar y ddarpariaeth addysg yng Nghartref Plant Diogel Hillside yng Nghymru. Datblygwyd cynlluniau dysgu unigol electronig newydd er mwyn sicrhau y ceir gwell parhad ar adegau pontio o fewn y system. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu a chefnogi'r broses o gyflwyno rhaglenni i godi ymwybyddiaeth timau troseddau ieuenctid a staff gwasanaethau carchardai o faterion yn ymwneud â dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu prosiect gwerth £1.2 miliwn a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop o dan y prosiect "Cyrraedd y Nod", sy'n rhoi cymorth dwys er mwyn ennyn ac ailennyn diddordeb yr unigolion mwyaf agored i niwed yn y system a'u hannog yn ôl i ddysgu.

**Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a Theuluoedd yn Gyntaf y Strategaeth Tlodi Plant**

26. Dengys ymchwil fod llawer o gysylltiad rhwng ffactorau cymdeithasol a lles bywyd plentyn sy'n gysylltiedig â byw mewn tlodi a'r ffactorau hynny sy'n gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o gymryd rhan mewn ymddygiad troseddol. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant newydd wedi'i gwneud yn bosibl mynd ati i ddatblygu dull mwy integredig o weithredu gwasanaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru drwy'r dull ymyriadau teulu cyfan. Mae hyn yn cynnwys cysylltiad agosach rhwng Timau Troseddau Ieuenctid a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cael eu cyflwyno'n raddol ledled Cymru. Caiff cymorth ei roi i deuluoedd cymhleth drwy ddileu rhwystrau sefydliadol a cheir mwy o atebolrwydd a chyfrifoldeb a rennir o fewn ac ar draws gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion gyda gofyniad i sicrhau mwy o gydweithredu rhwng llywdoraeth leol a byrddau iechyd yng Nghymru, fel partneriaid cyfartal sy'n darparu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn eu hardal.

27. Mae cynllunio a gweithredu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn ystyried yn llawn y rhyngberthynas â'r system Cyfiawnder Ieuenctid, ac mae'r Thimau Troseddau Ieuenctid yn bartneriaid perthnasol ar Fyrddau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Caiff y cysylltiadau angenrheidiol eu creu er mwyn sicrhau llwybrau clir ar gyfer atgyfeirio i Wasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedddrwy amrywiaeth o asiantaethau sy'n cyfrannu at wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys timau troseddau ieuenctid, yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol plant. Yn ehangach mae systemau atgyfeirio clir rhwng timau cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn nodi ac atgyfeirio plant y gallai fod angen ymyriad neu wasanaeth lles plant.

28. Bydd rhaglen arloesol Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfrannu at nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu ar gam cynnar drwy annog y broses o ddarparu gwasanaeth mwy integredig i deuluoedd, o wasanaethau cyffredinol i ddull gweithredu amlasiantaethol 'Tîm y Teulu'. Bydd hefyd yn helpu i feithrin cysylltiadau ym mhob un o'r gwasanaethau a ddarperir megis Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a Chymunedau yn Gyntaf i deuluoedd ag anghenion cymhleth.

**Camddefnyddio Sylweddau**

29. Mae camddefnyddio sylweddau yn un o brif rhagfynegyddion ymddygiad troseddol yn y dyfodol ymysg plant a phobl ifanc. Pwysleisiodd y Cynllun Cyflenwi bod angen ymatebion lleol i achosion o gamddefnyddio sylweddau ymysg plant a phobl ifanc.

30. Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru "Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed" yn nodi agenda genedlaethol glir ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â hynny yng Nghymru. Un o'r pedwar maes gweithredu â blaenoriaeth a nodwyd yw lleihau niwed i unigolion, eu teuluoedd a chymunedau ehangach o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a hynny heb achosi stigma ynghylch camddefnyddio sylweddau. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio fframwaith a chanllawiau ar gyfer darparu Gofal Integredig ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n Camddefnyddio Sylweddau sy'n cynnwys pob agwedd ar driniaeth a gofal

pobl ifanc y mae angen ymyriadau o ran camddefnyddio sylweddau arnynt, gan gynnwys pontio o wasanaethau pobl ifanc i wasanaethau oedolion pan fyddant o'r oedran priodol.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)**

31. Erys iechyd meddwl plant a'r glasoed yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn cael eu hatgyfnerthu ar bob haen gan gynnwys mynediad i CAMHS arbenigol. Bellach mae gan bob Bwrdd Iechyd Lleol Gynghorydd Iechyd Meddwl ar gael i bob Tîm Troseddau Ieuenctid, gyda chysylltiad â thimau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Fforensig Haen 3 arbenigol.

32. Mae gwaith penodol hefyd yn mynd rhagddo gyda'r uned ieuenctid yng Ngharchar y Parc, sydd bellach nid yn unig yn darparu gwasanaethau Haen 1 ond gwasnaethau mewngymorth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Fforensig Haen 2 a Haen 3. Mae'r gwasanaeth mewngymorth wedi bod yn hollbwysig i ddatblygu dull haenau Cymru gyfan o ran CAMHS Fforensig, sy'n cysylltu â gwasanaethau CAMHS cyffredinol, Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, y Gwasanaeth Cynghorwyr Iechyd Meddwl a Gwasanaeth Ymgynghori a Thrin Fforensig y Glasoed. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn ystyried cynigion ar gyfer ariannu gwaith gyda Charchar y Parc yn y dyfodol, wedi'i anelu at ariannu gwasanaeth clinigol CAMHS Haen 2 yn rhannol.

**Llety**

33. Gall bod yn ddigartref neu fod â llety ansefydlog gael effaith ar beth sy'n digwydd i unigolyn unwaith iddo fod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Gall trefniadau byw ansicr neu dros dro gyfrannu at y rheswm dros remandio yn y ddalfa neu ddedfryd o garchar. Gall unigolyn golli ei lety o ganlyniad i gael ei remandio yn y ddalfa neu ei ddedfrydu i garchar, a gall bod heb rywle i fyw ar ôl cael ei ryddhau effeithio ar ei allu i gael ei ryddhau. Gall llety sefydlog hefyd leihau'r tebygolrwydd o gollfarnu o'r newydd.

34. Mae'n bwysig bod gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid drefniadau cyswllt ag awdurdodau lleol ac asiantaethau tai eraill er mwyn cynllunio bod llety addas ar gael pan fydd pobl ifanc yn cael eu rhyddhau ac er mwyn sicrhau na fyddant yn ddigartref. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau penodol o dan y Ddeddf Plant i sicrhau bod anghenion llety ac anghenion eraill pobl o dan 18 oed sydd mewn angen yn cael eu diwallu. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu nodyn cyngor arfer da i helpu i wella cydweithio o ran tai i droseddwyr ifanc.

Eitem 4

# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 29 Medi 2011** |
| Amser: | **09:30 - 12:50** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_29_09_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman (Cadeirydd)**<br>**Angela Burns**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Suzy Davies**<br>**Julie Morgan**<br>**Lynne Neagle**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Simon Thomas** |
| Tystion: | **Huw Bennett, Iechyd Cyhoeddus Cymru**<br>**Lesley Griffiths, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Tony Jewell, Prif Swyddog Meddygol**<br>**Dr Heather Payne, Prif Swyddog Feddygol, Maternal & Child Health**<br>**Mechelle Collard, British Society for Paediatric Dentistry**<br>**Shannu Bhatia, British Society for Paediatric Dentistry**<br>**Nigel Monaghan, British Association for the Study of Community Dentistry**<br>**Maria Morgan, British Association for the Study of Community Dentistry** |
| Staff y Pwyllgor: | **Claire Morris (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Dirprwy Glerc)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. Ymchwiliad i Iechyd y Geg mewn Plant yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Hugh Bennett i'r cyfarfod. Holodd yr Aelodau y tyst.

## 3. Craffu ar waith y Gweinidog: Lesley Griffiths, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3.1 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog i'r cyfarfod. Holodd yr Aelodau y Gweinidog.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am:

- y sylwadau anghyson a wnaed gan Goleg Brehinol y Bydwragedd ynghylch niferoedd y bydwragedd yng Nghymru;
- lle mae problemau recriwtio mewn gwasanaethau newyddenedigol;
- nifer y gwelyau ar gyfer mamau â babannod sy'n dioddef o iselder ôl-enedigol;
- enwaedu benywod;
- y gwerthusiad o effeithiolrwydd y rhaglen MEND (Mind, Exercise, Nutrition...Do It!) yng Nghymru.

3.3 Cytunodd y Cadeirydd i anfon y cwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y cyfarfod at y Gweinidog.

## 4. Ymchwiliad i Iechyd y Geg mewn Plant yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth

4.1 Croesawodd y Cadeiryddd Mechelle Collard a Shannu Bhatia i'r cyfarfod. Holodd yr Aelodau y tystion.

## 5. Ymchwiliad i Iechyd y Geg mewn Plant yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Nigel Monaghan a Maria Morgan i'r cyfarfod.  Holodd yr Aelodau y tystion.

## 6. Papurau i'w nodi

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.